



Hwylusydd Tai Gwledig Rural Housing Enabler

18.07.2023

Annwyl Breswylwyr

Dear Residents

Holiadur Anghenion Tai Llanrheadr Yng
Nghinmeirch

Llanrheadr yng Nghinmeirch Housing Needs Survey

Mae'r Hwyluswyr Tai Gwledig yn hwyluswyr tai annibynnol ac rydym yn cynnal arolwg i adnabod yr angen am dai yn eich ardal chi. Mae gwybodaeth bellach am yr Hwyluswyr Tai Gwledig wedi ei gynnwys gyda'r llythyr hwn.

The Rural Housing Enablers are independent housing enablers, and we are conducting a review to identify the housing need in your area. More information regarding the Rural Housing Enabler's work is included with this letter.

Mae Cyngor Cymuned Llanrheadr wedi comisiynu'r gwasanaeth Hwyluswyr Tai Gwledig i gynnal ymchwil er mwyn darganfod beth yw'r sefyllfa dai yn yr ardal. Mae'r Cyngor Cymuned wedi comisiynu'r gwaith hyn gan efallai bydd cyfle yn codi i ddatblygu tai fforddiadwy ar gyfer bobl leol o fewn y pentref.

Llanrheadr Community Council have commissioned the Rural Housing Enabler's to carry out research to learn more about the housing situation in the area. The Community Council have commissioned this work as an opportunity to develop affordable housing for local people in the village might arise.

Fel rhan o'r gwaith ymchwil mae'r Hwyluswyr Tai Gwledig yn eich gwahodd i gwblhau arolwg anghenion tai. Pwrpas yr arolwg yw darganfod beth yw'r angen am dai yn yr ardal hon, os oes angen, a pha fath o dai sydd angen eu hangen arnoch chi. Mae'r arolwg hefyd yn rhoi cyfle i chi nodi eich barn am unrhyw ddatblygiad posib yn eich ardal chi.

As part of the research the Rural Housing Enabler's are inviting you to complete a housing needs survey. The aim of the survey is to identify the housing need in this area, establish if there is a housing need, and the type of properties needed. The survey also gives you the opportunity to note your views relating to any possible development in the area.

Bydd y wybodaeth rydych yn ei rannu gyda ni yn cael ei gynnwys o fewn adroddiad anghenion tai i'w rannu gyda'r Cyngor Cymuned er mwyn amlinellu'r sefyllfa dai yn yr ardal.

The information that you share with us will be included as part of a housing needs report that will be shared with the Community Council to outline the current housing situation in the area.



Hwylusydd Tai Gwledig Rural Housing Enabler

Mae modd cwblhau'r arolwg drwy ddilyn y ddolen isod. Ni ddylai'r holiadur gymryd dim mwy 'na 10 munud i chi ei gwblhau. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r holiadur erbyn Dydd Gwener, Awst 11.

You can complete the survey online by using the link below. It should not take more than 10 minutes to complete the questionnaire. We ask kindly that you complete the questionnaire by Friday, August 11.

Gallwch gwblhau'r arolwg ar-elin drwy ddilyn y ddolen isod: <https://bit.ly/Llanrheadr>

You can complete the online survey by following the link below: <https://bit.ly/Llanrheadr>

Neu gallwch ddefnyddio'r côd QR isod:

Or you can scan the QR code below:



Os nad oes gennych chi fynediad at we ac yn dymuno cwblhau'r holiadur cewch ffonio 07979 803 547 rhwng 9 a 5 ac fe wnaif i gwblhau'r holiadur gyda chi dros y ffôn.

If you do not have access to the internet and if you wish to complete the questionnaire you can call 07979 803 547 between 9 and 5, we will complete the questionnaire with you over the phone.

Mae cyfle i chi fynychu Diwrnod Agored sydd wedi ei drefnu ar y cyd rhwng Cyngor Cymuned Llanrheadr yn y Ffestri Yng Nghapel Llanrheadr Yng Nghinmeirch, LL16 4NT ar yr 2ail o Awst rhwng 4.30 a 6.30 yn. Mae'r Diwrnod Agored yn gyfle i chi ddysgu fwy am y datblygiad posib yn ogystal a'r opsiynau tai fforddiadwy sydd ar gael i chi.

There's also an opportunity for you to attend an Open Day arranged by the Community Council and the Rural Housing Enablers in the Ffestri, Llanrheadr yng Nghinmeirch, LL16 4NT on the 2nd of August between 4.30 and 6.30pm. The Open Day is an opportunity for you to learn more about the possible development and the affordable housing options available.

Oes gennych gwestiynau pellach mae croeso i chi ffonio'r rhif uchod neu e-bostio htg@grwpcynefin.org.

If you have any further question's, you are welcome to call the above number or send an email to htg@grwpcynefin.org.

Yn gywir / Yours Faithfully

Mari Wynn Tudur

Uwch Hwylusydd Tai Gwledig
Senior Rural Housing Enabler